COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 26 TACHWEDD 2008 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn

Parch H Davies (Cadeirydd)
Mrs S Smith
Mr P Wood
Mr J Bader

Ysgrifenyddiaeth

Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr

Grant Thornton

Mr J Golding

Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ms P Bowen-Bravery

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Claire Thomas o Grant Thornton, Ann Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Vernon o Wasanaethau Archwilio Mewnol.

1. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 12 Mehefin 2008.

1.1 Cafodd y rhain eu cytuno a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd cyfarfod o Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC) yn Nhŷ Caradog ac roedd nifer dda wedi ymgynnull. Y prif eitemau ar yr agenda oedd y posibilrwydd o rannu gwasanaethau a phroblemau cyffredin gyda Chynulliad Cymru. Dosbarthwyd cofnodion o'r cyfarfod i'r Cyrff hynny a fethodd fod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yr Ysgrifennydd wedi ysgrifennu hefyd at Brif Weithredwr pob CNLC i gynnig cynnal cyfarfod arall cyn cyfarfod nesaf y Prif Weithredwyr ag Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cymru.

2.2 Adroddwyd y byddai Ysgrifennydd Parhaol newydd Cynulliad Cymru yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cymryd stoc â Phrif Weithredwyr CNLC. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan hwyluswyr. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallent gyfarfod â'r hwyluswyr cyn y cyfarfodydd er mwyn codi materion pwysig â hwy ynghylch y rhyngweithiad rhwng y CNLC a Chynulliad Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ceisio trefnu cyfarfod â'r hwyluswyr.

2.3 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod Cynulliad Cymru wedi gorffen trawsnewid system TG y Comisiwn er bod rhai mân faterion heb eu datrys.

2.4 Adroddwyd na dderbyniwyd dim pellach ynghylch y gŵyn a wnaed gan Gyngor Cymuned Dyffryn Clydach ac nid oedd wedi cyfeirio'r gŵyn i Gynulliad Cymru hyd yn hyn.

3. Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli 2007-08.

3.1 Esboniodd Mr Golding bod yr Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a'r Llythyr Rheoli yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn Adroddiad ISA 260 a gyflwynwyd i Aelodau yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio ond ei fod hefyd yn cynnwys argymhellion archwilio ffurfiol. Yr argymhellion oedd:

- Bod y Comisiwn yn defnyddio Sage yn unig ar gyfer casglu gwybodaeth ariannol drwy gydol y flwyddyn ac ar gyfer y weithdrefn cau i lawr ar ddiwedd y flwyddyn;
- Y Comisiwn i lunio amserlen cau i lawr gynhwysfawr ar gyfer paratoi datganiadau ariannol 2008-09;
- Dylid llunio cytundeb rhwng y Comisiwn a'i gyfrifwyr sy'n amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r naill barti a'r llall;
- Dylid llunio gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chredydwyr, dyledwyr a chroniadau ar ddiwedd y flwyddyn; a
- Dylid llofnodi Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol diwygiedig y Comisiwn cyn gynted ag y bo modd.

3.2 Dywedodd Mr Golding mai'r prif fwriad y tu ôl i'r argymhellion hynny yn ymwneud â llunio gweithdrefnau oedd un o barhad a sicrhau y gallai'r Comisiwn weithredu mor effeithiol ag y bo modd yn ystod absenoldeb aelodau allweddol y staff ariannol. Roedd y Comisiwn wedi derbyn yr holl argymhellion archwilio a ymgorfforwyd yn y Llythyr Rheoli. **Cytunwyd** y dylid cynnwys y mater o barhad yng Nghofrestr Risgiau'r Comisiwn a'r Cynllun Parhad Busnes.

3.3 O ran llofnodi argymhelliad y Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol. Nodwyd bod hyn yn ddibynnol ar Gynulliad Cymru ac ystyriwyd y byddai'n rhaid codi'r mater hwn â'r Cynulliad. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cymru i godi'r mater hwn â hi.

3.4 Adroddodd Mr Golding ers y Pwyllgor Archwilio blaenorol, bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cymeradwyo cyfrifon y Comisiwn a'u bod wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cymru.

3.5 Roedd Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol 2007-08 yn adolygiad ar gyfer pob CNLC â'r thema o ddefnyddio staff o asiantaethau a chontractwyr. Gan nad oedd y Comisiwn yn penodi aelodau staff asiantaethau na chontractwyr, roedd y rhan hon o'r adolygiad wedi canolbwyntio ar y ffaith bod y Comisiwn yn cyflogi aelodau staff ar secondiad o Gynulliad Cymru.

3.6 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Golding am y gwaith a wnaed gan Grant Thornton i archwilio cyfrifon 2007-08 y Comisiwn.

4. Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2008-09.

4.1 Adroddodd Ms Bowen-Bravery bod yr oedi cyn i'r Comisiwn gael y Cyfarwyddiadau Arolygon Etholiadol gan Gynulliad Cymru wedi golygu na allai Archwiliad Mewnol 2008-09 gynnwys canolbwyntio ar y maes hwn fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

4.2 Nodwyd mai 2008-09 oedd blwyddyn olaf y cynllun archwilio 5 mlynedd ar gyfer y Comisiwn ac felly byddai'n rhaid cynhyrchu Asesiad Anghenion Archwilio. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n ddymunol parhau â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cynulliad Cymru fel ei Archwilwyr Mewnol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ystyried ffyrdd i gynnwys y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wrth roi argymhellion a wnaed yn Adroddiad Adolygiad Cyfnodol SAC ar waith, yn enwedig wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol y Comisiwn.

5. Cwynion (eitem sefydlog)

5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn.

6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Nid oedd unrhyw fater arall.